

Cyngor Sir Ynys Môn

Pwyllgor:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	18 Medi 2024
Teitl yr adroddiad:	Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Atodol: Adolygiad o daliadau i aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig
Adroddiad gan:	Pennaeth Democratiaeth
Pwrpas yr Adroddiad:	Rhoi gwybod am benderfyniad y Panel ynghylch yr uchod

1 - Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforedig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol. Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

2 - Cyd-Bwyllgorau Corfforedig (CBC)

Sefydlwyd CBC o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) ac fe ddiwygiwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gynnwys CBC fel awdurdodau perthnasol o fewn swyddogaethau'r Panel. Golygai hyn y bydd rhaid i unrhyw daliadau a wneir i aelodau CBC gael eu penderfynu gan y Panel.

Mae CBC yn gyrrff ar wahân a gaiff gyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, a chyflawni swyddogaethau. Mae pedwar CBC yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru'n cynnwys prif gynghorau Gwynedd; Dinbych; Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, y Fflint ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr pob prif gyngor fod yn aelodau o'u priod CBC. O ran aelodau lleyg, gallai CBC:

- gyfethol cynrychiolwyr prifysgolion a byrddau iechyd lleol, fel rhan o'r disgwyliad sydd ar y CBC i ymgysylltu â sefydliadau neu gyrrff o fewn eu rhanbarth, a'u cynnwys yn eu gwaith

- benodi aelodau lleyg sydd â hawl pleidleisio ar unrhyw is-bwyllgorau sy'n cael eu sefydlu i gefnogi eu gwaith gweinyddu a llywodraethu

Mae'n ofynnol hefyd i CBC fod â phwyllgor llywodraethu ac archwilio y mae un rhan o dair o'r aelodau yn aelodau lleyg annibynnol.

3 - Trefniadau tâl

Ystyriodd y Panel y trefniadau tâl ar gyfer CBC yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23. Gan fod CBC yn eu camau cynnar ar y pryd, penderfynodd y Panel na fyddai cyflog ychwanegol yn cael ei dalu ond y byddai'r tâl yn cael ei adolygu wrth i'r CBC ddatblygu. Fodd bynnag, fe waeth y Panel benderfynu y dylid talu cyfraniad at gostau gofal a theithio a chostau cynhaliath i bob aelod CBC. Cafodd y penderfyniad hwn ei gynnwys yn eu hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23.

Gan fod CBC bellach yn fwy sefydledig, cynhaliodd y Panel ymgynghoriad ar adroddiad atodol drafft, gan ofyn a ddylid talu aelodau lleyg CBC yn yr un modd ag aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol eraill. Roedd bron pob ymateb yn gefnogol i'r dull a nodwyd yn yr adroddiad.

O ganlyniad, mae adroddiad atodol terfynol y Panel yn cynnwys y penderfyniad isod a ddaeth yn weithredol ar dyddiad cyhoeddi'r adroddiad (2 Awst 2024):

Penderfyniad 1: Bydd aelodau lleyg cyd-bwyllgor corfforedig yn cael eu talu ar yr un sail ag aelodau cyfetholedig (lleyg) sydd â hawliau pleidleisio cyrff eraill o fewn y teulu llywodraeth leol.

Nodir y symiau isod.

Taliadau a wneir i aelodau lleyg CBC

Rôl	Cyfradd tâl fesul awr	Cyfradd tâl hyd at 4 awr	Cyfradd tâl 4 awr a throsodd
Cadeiryddion lleyg pwyllgorau	£33.50	£134	£268
Aelodau lleyg cyffredin sydd â hawliau pleidleisio	£29.75	£119	£238

Y CBC unigol fydd yn penderfynu pa gyfraddau fydd yn cael eu talu.

4 - Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi penderfyniad atodol y Panel mewn perthynas â thaliadau i aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig

Papur cefndirol:

Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: Adolygiad o daliadau i aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig (Gorffennaf 2024):

<https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adolygiad-o-dal-i-aelodau-lleyg-ar-gyd-bwyllgorau>